# Dyma ni!







Athrawes: Mrs Phillips





HTLA: Mrs Hughes

Cynorthwyydd: Miss Currado

Mae'r plant i gyd yn nosbarth meithrin rhan amser. Mae yna ddwy sesiwn dysgu a bydd y plant yn mynychu **un sesiwn y dydd**.

Sesiwn bore rhwng 9y.b - tan 11:45 y.b

Sesiwn prynhawn 12:55y.p - tan 3:05 y.p

Mae'r addysg a gweithgareddau yn cwmpasu anghenion y plentyn, a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae strwythuredig, mae plentyn yn meithrin amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau unigryw a gwerthfawr.

Mae'r holl gyfleoedd hyn yn hanfodol ar gyfer y plentyn gan eu bod yn cyfrannu at ddatblygiad y plentyn yn ei gyfanrwydd. Rydym yn canu Ffa la la yn ddyddiol ac mae'r disgyblion yn mwynhau y caneuon.






## Addysg Gorfforol



**Dydd Iau** - Mae angen i blant ddod â siorts / trowsus tywyll, crys-t ac esgidiau priodol (treinars) pob Dydd Iau.

## Dydd Mercher Mwdlyd

**Dydd Mercher -** Bydd angen i'r disgyblion i ddod â dillad ac esgidiau addas er mwyn mwynhau'r profiad yn iawn. Cyfle i'r disgyblion i fwynhau dysgu yn yr awyr agored yw hwn. Gofynnwn yn garedig i rieni ceisio brynu siwt awyr agored i'w plentyn neu sicrhau bod ganddynt hen ddillad i'w gwisgo. Mae esgidiau glaw hefyd yn bwysig iawn.



**Beth am canu caneuon cyw? Cliciwch ar y linc i wrando;**

Dyddiau'r wythnos - https://www.youtube.com/watch?v=EjSFKgGkSXs

Cyfri ar y bws - https://www.youtube.com/watch?v=4DleEEIpjmo

Caru canu i mewn i'r arch a nhw - https://www.youtube.com/watch?v=BW2LFWkKhc8

Caru canu adeiladu tŷ bach - https://www. youtube.com/watch?v=UYYRQLE2xCU

